| | |
|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | Digidol |
| **Arweinydd Polisi o fewn tîm y tasglu** | Nicola Leadbeatter |
| **Camau Gweithredu, fel y'u nodwyd yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol"** | JS5 Cefnogi creu mwy o swyddi digidol yn y Cymoedd a datblygu dau hyb technoleg entrepreneuriaeth i helpu busnesau newydd sy'n dechrau yn y sector.<br>JS26 Gweithio gyda busnesau i ddeall anghenion sgiliau digidol cyfredol a rhai'r dyfodol i sicrhau bod sgiliau a chynlluniau prentisiaeth yn diwallu eu hanghenion.<br>JS27 Sefydlu gweledigaeth gyffrous am Gymoedd digidol yn y dyfodol, gan ystyried gwaith tebyg arall sydd ar y gweill mewn ardaloedd eraill. |

| Cerrig milltir | Cynnydd |
|---|---|
| **Ebrill 2018** - Defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur a luniwyd yn y Cynlluniau Sgiliau Rhanbarthol a gweithio ar y cyd â chynlluniau'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol a gyhoeddwyd yn ddiweddar er mwyn archwilio'r posibilrwydd o greu dau hyb meithrin newydd yn y Cymoedd a fydd yn canolbwyntio ar fusnesau newydd, technoleg, swyddi o ansawdd a manteisio ar dechnoleg ddigidol | Cymeradwywyd y cais i sefydlu pedair Hyb Meithrin i ategu'r hyb meithrin cyntaf yn Wrecsam. Mae'r trafodaethau wedi cynnwys rhinweddau'r ffaith bod y canolfannau hyn o fewn canolfannau strategol ehangach.<br><br>Bydd tendr Cymru gyfan, sy'n cael ei lansio ddechrau mis Mai, yn cynnwys gofyniad i wasanaethau a gyflawnir y tu allan i oriau gwaith fynd i'r afael â phroblemau sy'n rhwystr i ddechrau busnes a hybu cynnwys grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r tendr yn cynnwys lotiau ar gyfer Cymoedd y De-ddwyrain, Cymoedd y De-orllewin a De-orllewin Cymru.<br><br>Bydd union leoliadau canolfannau yng Nghymru yn dibynnu ar y cynigion sy'n dod i law. Er hynny, bydd cysylltiadau strategol sydd â seilwaith eisoes ac sy'n alinio gyda Chanolfannau Strategol y Cymoedd yn un o'r prif ystyriaethau. |
| **Mawrth 2018** – Datblygu nifer o fframweithiau prentisiaeth, sy'n cynnwys opsiynau digidol. | Mae cyfres newydd o fframweithiau TGCh ar gyfer prentisiaethau bellach wedi cael ei datblygu.<br><br>Mae Sgiliau Llythrennedd Digidol o fewn y gyfres Sgiliau Hanfodol yn parhau i fod yn ddewisol (fel y'i diffinnir gan Pennu Safonau Prentisiaeth i Gymru) ond rydym yn parhau i annog eu cynnwys - mae'r rhan fwyaf o fframweithiau wedi dewis eu cynnwys erbyn hyn.<br><br>Yn ddiweddar, mae pedwar fframwaith TG newydd wedi'u cyhoeddi ac mae un fframwaith wedi'i ddiweddaru. Rydym yn disgwyl i'r Fframweithiau Gradd-brentisiaeth TG gael eu cyhoeddi - mae TG yn un o'n gradd-brentisiaethau peilot a fydd ar gael o fis Medi 2018. |

| | |
|---|---|
| **Ionawr i Ebrill 2018** – Datblygu gweledigaeth ar gyfer y Cymoedd, trwy ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid allweddol. Nodi sut y gellir defnyddio technoleg i sicrhau canlyniadau gwell ac ychwanegu gwerth, er enghraifft, cynllun wifi cymunedol sy'n cefnogi ac yn canolbwyntio ar glybiau codio mewn ysgolion hefyd. | Yn dilyn ymgynghori helaeth gyda rhanddeiliaid allweddol ac ar ôl clywed barn pobl yn y cymunedau trwy'r rhaglen ymgysylltu, teimlid bod cryn frys am ffocws ar gyflawni. Yn dilyn cyflwyniad a thrafodaeth yng nghyfarfod y Tasglu Gweinidogol ym mis Ebrill, cytunwyd y dylid cymeradwyo tri chynllun peilot i ymchwilio ymhellach.<br><br>Y cynlluniau dan sylw yw cynllun wi-fi cymunedol, cynllun cludiant cymunedol ac adnoddau ychwanegol ar gyfer yr offeryn mapio Lle.<br><br>Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran y gwaith hwn, ac mae swyddog o Lywodraeth Cymru wedi ei neilltuo ar gyfer pob maes gwaith.<br><br>Mae gweithdy wedi cael ei gynnal, dan ofal yr Academi Meddalwedd Genedlaethol ar y cynllun cludiant cymunedol, ac roedd cynrychiolwyr o'r Fargen Ddinesig, y Gymdeithas Cludiant Cymunedol a'r Byrddau Iechyd yn y gweithdy. Gweithdy cychwynnol oedd hwn i ystyried hyd a lled y peilot ac i ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn eisoes.<br><br>Mae'r ddogfen sy'n disgrifio prosiect y Cynllun Wi-Fi Cymunedol wedi ei drafftio, a bydd gweithdy yn cael ei drefnu cyn bo hir er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a fydd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd ddarganfod lleoliadau lle y gallent ddefnyddio Wi-Fi am ddim. Mae'n debygol y gellid cynnwys yr Academi Meddalwedd Genedlaethol yn y prosiect hwn hefyd, wrth edrych ar y posibilrwydd o greu Ap.<br><br>Mae cael adnoddau ychwanegol ar gyfer Lle wedi cael ei drafod gydag Arweinydd y Tŷ ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi gofyn am bapur manylach yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr adnoddau/cyllid sydd ei angen i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae cysylltiadau wedi'u gwneud gyda'r Fargen Ddinesig sy'n dymuno defnyddio llwyfan Lle ar gyfer eu gwaith ar Ddata Agored. Awgrymwyd ganddynt y byddent yn fodlon helpu gydag adnoddau a chyllid maes o law i sicrhau safon angenrheidiol yr offeryn mapio. |

| |
|---|
| **Risgiau** |
| Mae angen sicrhau ein bod yn cydweithio â bargeinion dinesig er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac er mwyn sicrhau effaith fwyaf bosibl yr adnoddau.<br><br>Ni chaniateir gwneud cynnig am yr Hybiau Meithrin Mentergarwch o safleoedd strategol y tasglu. |

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Nicola Leadbeatter – 20 Mehefin 2018 |